

## **Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 03/01/17**

**PRESENNOL:** Cynghorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Gwyn Morris Jones, Arthur Williams, Katherine Himsworth, John Emlyn Jones (cofnodwr).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Gwyn Williams.

**DATGAN DIDDORDEB:** DIM

**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF:** Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (05/12/16).

### **MATERION YN CODI:**

**Ffens ar lan yr afon gyferbyn â'r ysgol** -Darllenodd y Cadeirydd lythyr a dderbyniodd oddi wrth yr adran priodol yn y Cyngor Sir. Does dim pellach wedi ei benderfynu ac maent yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

**Arwydd Canolfan Bwyd Cymru** - Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi nodi pryder y Cyngor wrth y swyddogion yn y Cyngor Sir. Nid yw wedi derbyn ateb hyd yma.

**Ceisiadau Cynllunio** - 0/43471 Studio 7 Bodnant Buiness Studios - newid defnydd.

***Penderfynwyd:** Nid oes gan y Cyngor unrhyw sylw ar y cais*

### **Taliadau** -

Sue Hayward (glanhau toiledau Rhagfyr) £98.00  
Yswiriant £426.99 Nodwyd bod angen cynnwys y diffibriliwr a'r blwch ar y polisi yswiriant.

**Cronfa'r Cadeirydd**- Mae'r Cadeirydd yn dewis rhoi rhodd o £100 i Ysgol Eglwys Bach. Deallwyd bod angen uwchraddio toiledau'r ysgol ac adnwyddu carped yn un o'r dosbarthiadau. Cytunodd y Cyng Ceri Leeder i holi beth yw'r angen mwyaf.

**Y Diffibriliwr** - Mae'r diffibriliwr yn ei le. Mynegwyd gwerthfawrogiad y Cyngor i'r Cyng. Gwyn Morris Jones am wneud y gwaith yn ddi-dal.

***Penderfynwyd:** Archebu tri arwydd i'w gosod ar byst yn y manau hyn: ger yr ysgol, ger Yr Efail a ger Neuadd y Pentref. Penderfynwyd hefyd nodi'r lleoliad ar yr arwyddion fel Neuadd y Pentref/ Village Hall.*

**Pont Ffordd Bryn Hir**-Nododd y cadeirydd ei fod wedi cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor Sir, Mr Richard Williams, Henblas a chynrychiolydd yr NFU. Disgwylir adroddiad gan Mr Gwyn Parry o'r Cyngor Sir ar sefyllfa y cewyll cerrig a'r groesfan ar gyfer ceffylau/anifeiliaid. Roedd y Cadeirydd wedi nodi bod angen symud y cewyll ar fyrder.

**Praesept:** Derbyniwyd llythyr oddi wrth Rheolwr Treth Leol yn dweud mai £452.75 yw sylfaen Treth y Cyngor yn ardal Eglwys Bach ac yn gofyn i'r Cyngor bennu praesept ar gyfer 2017-18.

***Penderfynwyd:*** Codi'r braesept o 3% ar gyfer 2017-18

**Swydd Clerc** Nid yw'r person a ddangosodd ddiddordeb yn ddiweddar yn awyddus i ymgymryd â'r swydd.

***Penderfynwyd:*** Hysbysebu eto yn Y Pentan, Yr Odyn a'r Weekly News.

**Cymorthfa Cyngor Cymuned** Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cymorthfa Cyngor Cymuned er mwyn hwyluso trigolion yr ardal i ddod a sylwadau ger bron y Cyngor.

***Penderfynwyd:*** Peidio gweithredu hyn.

**Sŵn Cŵn yn cyfarth.** Nodwyd bod nifer o drigolion yng nghanol y pentref yn cwyno am sŵn cŵn yn cyfarth.

***Penderfynwyd:*** Peidio ag anfon llythyr at berchnogion cŵn ond yn hytrach hysbysu'r trigolion sy'n cwyno am yr adran priodol yn y Cyngor Sir gellir troi ato ar ôl cael gair gyda'r perchnogion cŵn eu hunain yn gyntaf.

## **GOHEBIAETH**

**CBS Conwy** - Gorchymyn gwahardd gyrru dros 20mya ger Ysgol Eglwys Bach.

**Panel Annibynnol Cymru** - Cyfarfod Rhanbarthol 26<sup>ain</sup> o Ionawr 10:30- 12:30 Venue Cymru.

**Llywodraeth Cymru** - Gwariant Adran 137: Y Terfyn ar gyfer 2017-18 sef £7.57 am bob etholwr.

## **Cinio Nadolig y Cyngor**

***Penderfynwyd:*** Cytunwyd i drafod hyn eto ym mis Medi

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - Nos Lun Chwefror 6ed 2017 am 7:30

Daeth y cyfarfod i ben am 8:45